# SÊR SYMUD



## GWELLWCH EICH IECHYD, DIOGELWCH Y BLANED, BYDDWCH YN SEREN SYMUD


**Mae ysgol eich plentyn yn cymryd rhan mewn her newydd gyffrous i annog mwy o blant a'u teuluoedd i deithio'n llesol i'r ysgol.**

Caiff menter Sêr Symud ei chyflwyno gan Living Streets i helpu cymaint o blant â phosibl i brofi manteision cerdded neu droelli, beicio neu sgwtera i'r ysgol.

Eleni, bydd plant yn cofnodi sut maen nhw'n teithio i'r ysgol bob dydd ac yn ennill pwyntiau tuag at gyfanswm y dosbarth. Po fwyaf llesol yw taith, y mwyaf o bwyntiau sydd ar gael. Caiff y pwyntiau uchaf eu dyfarnu am gerdded, troelli, beicio neu sgwtera.

Bydd dosbarthiadau yn cystadlu i gael y mwyaf o bwyntiau ar ddiwedd y mis a'r cyfle i gadw masgot Strider bach.

**Mae mor syml â hynny!**



## Beth yw'r manteision?

- Mae'r plant yn gweithio gyda'i gilydd ar nod cyffredin
- Mae'r plant yn cyrraedd yr ysgol wedi eu hadfywio ac yn barod i ddysgu
- Mae'n helpu i leihau traffig a llygredd wrth gatiau'r ysgol



LIVINGSTREETS.ORG.UK/MOVEMAKERS

## Ddim yn gallu cerdded yr holl ffordd i'r ysgol?

Mae yna ffyrdd eraill o gymryd rhan ac ennill pwyntiau:

- Parcio a Cherdded – parciwch o leiaf 10 munud i ffwrdd a cherddwch neu droellwch gweddill y daith
- Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn ennill pwyntiau hefyd
- Teithiau car – gall plant ennill pwynt o hyd drwy gofnodi eu taith
- Mae amnewid taith un diwrnod yn unig i gerdded neu droelli yn gwneud gwahaniaeth

**MAE POB TAITH YN CYFRIF, GAN HELPU EICH PLENTYN A'I GYD-DDISGYBLION I WEITHIO GYDA'I GILYDD I DDRINGO'R BWRDD ARWAIN.**

Bydd eich plentyn yn derbyn nod tudalen Sêr Symud, y gall ennill sticer Sêr Symud arbennig i'w ychwanegu ato bob mis

Ewch i **livingstreets.org.uk/movemakersrewards** i ddysgu'r stori y tu ôl i bob sticer yng ngeiriau'r plant a'u dyluniodd.



Bydd eich ysgol yn rhannu cyswllt i'r porth ar gyfer rhieni a gofalwyr, lle gallwch weld cynnydd pob dosbarth.

## Dywedwch wrthym am eich profiadau o deithio i'r ysgol a gallech ennill taleb siopa gwerth £200



**SGANIWCH YMA**

